Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 4

Gwynedd Werdd: Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

Adran	Prosiect	Trosolwg	Beth ydych chi am ei gyflawni yn y BUMED flwyddyn i gwblhau'r prosiect hwn	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y BEDWAREDD flwyddyn 2026-27 (cerrig milltir):	Diweddariad ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma, ac effaith hyn ar bobl Gwynedd	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol
Priffyrdd, Peirianneg a YGC	**Gweithredu ar risgiau llifogydd**	Mae risgiau o lifogydd ac erydiad arfordirol yn cynyddu gydag effaith newid hinsawdd yn golygu bod lefelau môr yn codi a stormydd mwy dwys yn digwydd yn fwy aml. Mae gan Wynedd yr arfordir mwyaf yng Nghymru ac oherwydd natur ein tirwedd mae	Sicrhau bod trefniadau pendant, ble yn bosibl, i fesur effaith pob ymyrraeth beth bynnag fydd ei natur. Adolygiad cynhwysfawr o'r Strategaeth Llifogydd Lleol ar gynnydd dros y bedair mlynedd.	1. Paratoi rhaglen gyflawni i'r blynyddoedd i ddod. 2. Adolygu effeithiolrwydd	1. Rhaglen waith wedi datblygu ac yn cael ei weithredu arno, ceisiadau am gymorth / cefnogaeth grant gan Llywodraeth Cymru wedi eu cyflwyno. 2. Gwaith cychwynnol iawn ar rybuddion	1. Ydi 2. Ydi

		canran uchel o'n cymunedau, a'r isadeiledd sy'n eu gwasanaethu, ar yr arfordir. Byddwn yn cydweithio gydag asiantaethau eraill, er mwyn blaenoriaethu ein harfordir ar sail risg, ac yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau lle bo hynny'n bosibl. Mae yna hefyd risg o lifogydd mewndirol pan fo dŵr yn cronni ac afonydd yn gorlifo. Byddwn yn llunio cynlluniau dalgylch er mwyn helpu i osgoi/ymateb i fygythiadau presennol a chynyddol i'r dyfodol.	Cynnal adolygiad o risgiau llifogydd ar ein isadeiledd, lonydd yn bennaf. Parhau i gydweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru gan sicrhau cyswllt â'r 3 prif prosiect (Fairbourne, Porthmadog a Pwllheli). Gweithredu prosiect Cei y Gogledd, Bermo.	system rhybuddio. 3. Cydweithio a chefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru. 4. Cyflwyno cais cynllunio ar gyfer prosiect Cei y Gogledd, Bermo.	arfordirol, gyda gwaith pellach ar y gorwel a rhybuddion glaw. 3. Cyfarfodydd rheolaidd mewn lle. Cyfarfodydd a pwyntiau cyswllt penodol mewn lle am y prosiectau canlynol - Porthmadog, Pwllheli a Fairbourne 4. Cais Cynllunio wedi ei gyflwyno – cyfarfod rheolaidd gyda'r Aelod Lleol a Chyngor Tref Bermo.	3. Ydi 4. Ydi 5. Ydi

				5. Cwblhau prosiectau sydd sy'n barod ar y rhaglen	5. Gwaith yn parhau gyda'r prosiectau.	